**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH/PO/350/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

22 Tachwedd 2024

Annwyl Mike,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Cyfarfodydd Rhynglywodraethol i ddod**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i'ch hysbysu am Grŵp y Pedair Gwlad sydd wedi'i sefydlu i ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth y DU. Pwrpas y grŵp yw ymgorffori'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon i ddatblygu Strategaeth ar Dlodi Plant ar gyfer y DU gyfan. Bydd y grŵp yn rhoi cyfle i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon lywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth ar gyfer y DU gyfan, a sicrhau bod y strategaeth arfaethedig yn ategu'r strategaethau presennol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd eisoes ar waith.

Bûm yn y cyfarfod cyntaf ar 13 Tachwedd. Cadeirydd y cyfarfod oedd Alison McGovern AS - Gweinidog Cyflogaeth y DU a Catherine McKinnell AS – Gweinidog Safonau Ysgolion y DU. Hefyd yn bresennol roedd Shirley-Anne Somerville ASA – Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth yr Alban ac Emma Little-Pengelly – Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon, a'r Is-weinidog Aisling Reilly, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Yn ystod y cyfarfod hwn, pwysleisiais fod angen inni gydweithio ar draws y llywodraeth i fynd i'r afael â thlodi plant. Roeddwn i hefyd yn awyddus i sicrhau bod ein strategaethau'n ategu ei gilydd ac nad ydynt yn dyblygu gwaith, yn enwedig o ran meysydd sy'n ymwneud â chymwyseddau a gedwir yn ôl ac sydd wedi'u datganoli. Roeddwn i hefyd am dynnu sylw at y dulliau sydd ar waith yma yng Nghymru i fynd i'r afael â thlodi plant a lliniaru effeithiau gwaethaf byw mewn tlodi ac i bwysleisio blaenoriaethau Cymru, yn enwedig mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt @gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn anffodus, nid oedd yn bosibl rhoi gwybod ichi ymlaen llaw am y cyfarfod hwn, oherwydd iddo gael ei alw ar fyr rybudd.

Mae'r fforwm hwn yn debygol o gyfarfod bob mis hyd nes y cyhoeddir Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth y DU – a disgwylir i'r Strategaeth gael ei chyhoeddi yn ystod gwanwyn 2025. Yn anffodus, gan fod y cyfarfodydd yn debygol o gael eu galw ar fyr rybudd, ni fydd modd rhoi gwybod ymlaen llaw am ddyddiad pob cyfarfod. Fodd bynnag, byddaf yn rhoi diweddariad ichi yn dilyn pob cyfarfod, ac yn rhoi gwybod ichi pan fydd gwaith y grŵp yn dod i ben.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yr gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip